

# Arwyr ac Arwresau Cymru

## Gwenllian

DILYN ÔL TROED



 Cadw



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mae stori Gwenllian yn dyddio o gyfnod sydd fwy nag 870 o flynyddoedd yn ôl yn nheyrnas y Deheubarth, sef de-orllewin Cymru. Roedd Lloegr a rhannau o Gymru wedi cael eu concro gan y Normaniaid, a adeiladodd gestyll gwych i arddangos eu grym. Ond brwydrodd y Cymry'n ddewr i adfer eu tiroedd a'u rhyddid. Roedd yn gyfnod o frwydro a cholli gwaed diddiwedd.

# Gwenllian

Rhyfelwraig o Gymru



Gwenllian: Rhyfelwraig o Gymru

Roedd Gwenllian yn dywysoges ddewr a hardd o Gymru a fu farw'n ceisio achub ei gwlad rhag goresgyniad y Normaniaid. Roedd yn ferch i Gruffudd ap Cynan, llywodraethwr Gwynedd (gogledd Cymru).

**P**an briododd Gwenllian â Gruffudd ap Rhys, tywysog y Deheubarth (de-orllewin Cymru), roedd rhai yn dweud eu bod mewn cariad. Roedd eraill yn ei weld fel cam doeth o ran grym, gan uno'r ddwy deyrnas mewn cyfnod cythryblus.

## Bywyd priodasol mewn cuddfan

Dechreuodd bywyd priodasol Gwenllian yn ne Cymru yng nghartref teuluol Gruffudd yn rhan uchaf dyffryn Tywi, yn Ninefwr o bosib. Ond roedd tiroedd Gruffudd o dan fygythiad cyson o du'r Normaniaid. Er mwyn cadw'n ddiogel, aeth y pâr priod i guddio yng nghoedwigoedd trwchus a mynyddoedd eu teyrnas. Oddi yno, magodd Gwenllian bedwar o feibion, tra oedd Gruffudd yn codi byddin, yn arwain cyrchoedd ac yn cynllunio i oresgyn y Normaniaid.

Daeth ei gyfle yn 1135. Roedd brenin Lloegr wedi marw ac roedd ei nai a'i ferch yn brwydro am y goron. Tra oedd meddwl arglwyddi'r Normaniaid ar bethau eraill, gallai'r Cymry ddechrau ar eu gwrthryfel. Teithiodd Gruffudd i'r gogledd i gael help gan deulu Gwenllian.

## Cam angheuol Gwenllian

Ond tra oedd Gruffudd oddi cartref, clywodd Gwenllian bod yr arglwydd Normanaidd, Maurice de Londres, yn casglu byddin ar gyfer ymosod ar rebeliaid Cymru. Yn hytrach

na disgwyl i'w gŵr ddychwelyd, teimlai bod raid iddi weithredu. Arweiniodd Gwenllian ei milwyr o ddiogelwch y coedwigoedd i ymosod ar gadarnle'r Normaniaid yng Nghastell Cydweli. Wrth ei hochr roedd dau o'i meibion, Morgan a Maelgwn, y ddau yn eu harddegau.

Cyfarfu byddin Gwenllian â byddin Maurice de Londres mewn cae ger y castell. Er gwaethaf dewrder Gwenllian, doedd gan ei byddin ddim gobaith yn erbyn grym y Normaniaid. Cafodd ei milwyr eu gorchfygu a lladdwyd Morgan.

## Arglwydd Normanaidd didrugaredd

Cafodd Gwenllian a Maelgwn eu dal. Ni ddangosodd Maurice de Londres unrhyw drugaredd – er mwyn dangos esiampl i holl dywysogion Cymru, dienyddiodd Gwenllian am frad. Yn ôl y sôn, cododd ffynnon i'r golwg yn y fan ble bu farw'r Dywysoges Gwenllian ddewr – llecyn sydd wedi cael yr enw Maes Gwenllian erbyn hyn.



Dyffryn Tywi ble dihangodd Gwenllian  
Ffynhonnell: Cyngor Sir Gaerfyrddin



Cofeb i Gwenllian yng Nghastell Cydweli



Brwydrodd byddin Gwenllian ger Castell Cydweli



Castell Nanhyfer



Castell Carreg Cennen




Castell Dinefwr



Castell Llansteffan



Beddfaen Maurice de Londres  
ym Mhriordy Ewenni



Laugharne Castle

### Haul ar fryn

Ni fu marwolaeth Gwenllian yn gwbl ofer. Cododd y Cymry mewn gwrthryfel unwaith eto yn erbyn y Normaniaid. Ymunodd ei brawd, Owain Gwynedd, â'i gŵr Gruffudd ap Rhys gan ysgubo ar draws gorllewin Cymru a gyrru'r Normaniaid o'u tiroedd.

Tyfodd mab ieuengaf Gwenllian, Rhys ap Gruffudd, i fod yn llywodraethwr y Deheubarth. Roedd yn filwr ac yn wleidydd. Daeth i gael ei adnabod yn ddiweddarach fel yr Arglwydd Rhys gan adfer teyrnas ei deulu drwy drafod â brenin newydd Lloegr. Adeiladodd gestyll ac mae llawer ohonynt i'w gweld hyd heddiw. Cyflwynodd hefyd wyliau barddoniaeth a cherddoriaeth, sydd wedi dod yn 'eisteddfodau' traddodiadol yng Nghymru erbyn hyn.

Gallwch olrhain hanes Gwenllian a thywysogion y Deheubarth mewn llawer o lefydd yn ne-orllewin Cymru.

# Dilyn ôl troed

Rydych chi wedi darllen stori Gwenllian, nawr beth am archwilio'r cestyll a'r coedwigoedd ble'r arferai'r dywysoges a'i theulu gerdded ar un adeg?

## Castell Cydweli

Pan mae'r castell godidog yma dan len o niwl, mae fel camu'n ôl i'r cyfnod canoloesol. At y castell Normanaidd hwn y gorymdeithiodd Gwenllian ond, ymhen blynnyddoedd, fe'i cipiwyd gan ei mab, yr Arglwydd Rhys.

- Caewch eich llygaid a dychmygwch gri'r rhyfelwyr wrth i filwyr Gwenllian frwydro yn erbyn y Normaniaid.
- Dychmygwch yr Arglwydd Rhys wedi iddo gipio'r castell, yn cerdded y waliau'n llawn buddugoliaeth.
- Archwiliwch y pedwar tŵr ac eisteddwch ar yr orsedd fawr yn union fel pe baech yn Dywysog Cymru yn y Canol Oesoedd.
- Chwiliwch am y llechfaen wrth y porthdy, sef carreg goffa Gwenllian.
- Profwch wefr y lleoliad. Ydych chi'n credu'r straeon bod ysbryd Gwenllian i'w weld yn y castell?

## Castell Talacharn

Adeiladwyd cestyll ar aberoedd fel hyn yn aml, i amddiffyn rhag lluoedd yn ymosod. Dywedir mai yn Nhalacharn yr arwyddodd yr Arglwydd Rhys gytundeb heddwch gyda Brenin Harri'r II o Loegr.

## Castell Dryslwyn

Adfail yw'r castell hwn bellach ond mae'n bur debyg ei fod wedi cael ei godi gan fab yr Arglwydd Rhys – Rhys Grug. Bu sawl cenhedlaeth o dywysogion y Deheubarth yn byw yma.

- Sefwch ar yr adfeilion ac edrychwch i lawr am ddyffryn Tywi. Yn y coedwigoedd hyn yr oedd Gwenllian a Gruffudd yn cuddio ac yn cynllunio eu cyrchoedd yn erbyn y Normaniaid.



Castell Dryslwyn

**Ewch i [www.cadw.cymru.gov.uk](http://www.cadw.cymru.gov.uk) i ddarganfod mwy am y safleoedd**

© Cadw, Llywodraeth Cymru (Hawlfraint y Goron), 2013

## Castell Dinefwr

Ar ôl ei marwolaeth, adeiladodd mab Gwenllian, yr Arglwydd Rhys, gastell newydd yma wrth iddo gryfhau ei deyrnas rhag ymosodiad. Efallai ei fod ar safle cartref teuluol gŵr Gwenllian, Tywysog y Deheubarth.

- Archwiliwch y parciau a'r coedydd ble'r oedd Gwenllian a Gruffudd yn cuddio o bosib rhag y Normaniaid ac yn cynllunio eu hymosodiadau.

## Castell Carreg Cennen

Gallai hwn fod yn safle un o gestyll yr Arglwydd Rhys. Gyda'i waliau uchel, byddai wedi bod yn amhosib ei oresgyn bron. Ond bu sawl cyrch arno, ac roedd ei berchnogaeth yn newid dwylo'n aml rhwng y Cymry a'r Saeson.

- Mwynhewch y golygfeydd trawiadol – delfrydol i filwyr yr Arglwydd Rhys gadw llygad am fyddinoedd yn ymosod.
- Edrychwch i lawr ymyl serth y clogwyn – amhosib ei ddringo bron gan luoedd yn ymosod.

## Castell Nanhyfer

Archwiliwch y castell mawreddog ar un adeg yn Nanhyfer, sy'n graddol ddod i'r golwg drwy waith cloddio. Cipiwyd y castell gan yr Arglwydd Rhys yn y flwyddyn 1191, ac fe'i rhoddodd i'w fab wedyn. Yn ddiweddarach, bu gelyniaeth deuluol chwerw, a charcharwyd yr Arglwydd Rhys yn y castell gan ei feibion ei hun!

- Beth am fod yn dditectif – chwiliwch am y ffosydd, y crugiau a'r waliau sy'n adfeilion, a cheisiwch ddeall sut roeddent yn ffurfio castell carreg trawiadol ar un adeg.
- Sefwch ar y tir heddychlon a cheisiwch ddychmygu cyfnod mwy cythryblus, pan oedd y Normaniaid a thywysogion Cymru'n brwydro am berchnogaeth o'r castell.

## Castell Llansteffan

Ar ôl i chi archwilio'r traeth, ewch i fyny at y castell rhyfeddol hwn ar ben y clogwyn. Rheolai'r castell fan croesi pwysig ar yr afon ar un adeg, ac felly roedd y Cymry a'r Normaniaid yn brwydro'n chwerw am fod yn berchen arno.